**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19eg Medi 2011**

**MONITRO PERFFORMIAD**

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch gweithgarwch a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Gwybodaeth**

**2.** Wedi ei atodi, er gwybodaeth i'r aelodau, mae'r adroddiad monitro am chwarter cyntaf y flwyddyn adrodd 2011/12, sef y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2011 i 30ain Mehefin 2011.

**Argymhelliad**

**3.** Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**CHWARTER CYNTAF**

**EBRILL 2011 – MEHEFIN 2011**

**Ffigyrau am y tro ydynt, ac fe allent fod yn agored i fân newidiadau.**

**CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| | **TANAU** | **2-6** |
| | Cyfanswm y galwadau | |
| RRC/S/001 | Yr holl danau – prif, eilaidd a simnai | |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Yr holl danau – bwriadol a damweiniol | |
| RRC/S/003 | Tanau mewn eiddo annomestig | |
| | | |
| | **AROS YN DDIOGEL** | **7-9** |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd | |
| | Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| RRC/C/005 | Presenoldeb/absenoldeb larwm mwg mewn tanau mewn cartrefi | |
| | | |
| | **GALWADAU AM WASANAETHAU ARBENNIG** | **10** |
| | Galwadau brys am wasanaethau arbennig | |
| | | |
| | **GALWADAU DIANGEN** | **11-12** |
| RRC/C/002 | Galwadau diangen maleisus | |
| RRC/C/003 | Galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig | |
| | Galwadau diangen didwyll | |
| | | |
| | **ERAILL** | **13** |
| | Diffinio'r tanau | |

## TANAU – RHESTR GYFEIRIO GRYNO

**ELENI– 2011/12**

(HYHE = Hyd yn hyn eleni)

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | HYHE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau* | 4,524 | | | | 4,524 | ↓ 11% |
| Yr holl danau | 999 | | | | 999 | ↓ 17% |
| Prif danau | 338 | | | | 338 | ↓ 5% |
| Tanau eilaidd | 622 | | | | 622 | ↓ 21% |
| Tanau simnai | 39 | | | | 39 | ↓ 35% |
| Yr holl danau bwriadol | 494 | | | | 494 | ↓ 18% |
| Yr holl danau damweiniol | 505 | | | | 505 | ↓ 17% |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 112 | | | | 112 | ↓ 8% |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 57 | | | | 57 | ↓ 2% |

**Y LLYNEDD – 2010/11**

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau* | 5,083 | | | | 5,083 |
| Yr holl danau | 1,207 | | | | 1,207 |
| Prif danau | 357 | | | | 357 |
| Tanau eilaidd | 790 | | | | 790 |
| Tanau simnai | 60 | | | | 60 |
| Yr holl danau bwriadol | 599 | | | | 599 |
| Yr holl danau damweiniol | 608 | | | | 608 |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 122 | | | | 122 |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 58 | | | | 58 |


* Cyfanswm y galwadau = Cyfanswm y galwadau a drafodwyd gan yr Ystafell Reoli, yn uniongyrchol gysylltiedig gyda digwyddiadau brys ee digwyddiadau dilys, galwadau niferus, galwadau diangen, galwadau ffug (efallai nad oedd angen i adnodd o'r Gwasanaeth fynychu pob galwad).

## Cyfanswm y Galwadau 2011/12 (Ebrill i Mehefin 2011)

- ***Fe wnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 11% neu 559 yn llai o alwadau o gymharu â 2010/11***
- ***Roedd gostyngiad o 12% neu 287 yn llai o alwadau a oedd angen i'r Gwasanaeth fynychu***


Yn ystod chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth yr Ystafell Reoli ymdrin â 4,524 o alwadau, a bu'n rhaid i'r Gwasanaeth fynd at 2,123 o ddigwyddiadau.

**Cyfanswm Galwadadau, a Lleoliad Digwyddiadau a fynychwyd**
*(OPSW_6.1)*




Yn Wrecsam bu'r nifer uchaf o alwadau a oedd gofyn i'r Gwasanaeth eu mynychu (9%) gyda'r nifer lleiaf yn Ne Gwynedd (3%). O'r holl alwadau a dderbyniwyd nid oedd angen i'r Gwasanaeth fynychu 53% ohonynt er enghraifft digwyddiadau nad oeddent yn ddilys, galwadau niferus, galwadau diangen wedi eu cadarnhau, neu alwadau ffug wedi eu cadarnhau.

**Digwyddiadau a fynchwyd, yn ôl math** *Cyfnod cyfredol*




## Cyfanswm y Tanau

- ***Roedd gostyngiad bychan o 17% neu 208 yn llai o danau o gymharu â'r un cyfnod yn 2010/11***

Yn ystod chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 999 o danau, sydd yn nol i fod yn unol â'r cyfartaledd 3-blynedd ac sy'n dipyn llai o danau o gymharu â llynedd.

Yn gyffredinol, mae nifer y prif danau, tanau eilaidd a simnai wedi gostwng.

**Tanau a fynychwyd** *(cyfnod cyfredol)*




## Prif Danau

- ***Roedd gostyngiad o 5% neu 19 yn llai o brif danau o gymharu â 2010/11***

Yn ystod chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 338 o brif danau, sydd yn well na llynedd ac yn well na'r cyfartaledd 3-blynedd.

## Tanau Eilaidd

- ***Roedd gostyngiad o 21% neu 168 yn llai o danau eilaidd o gymharu â 2010/11***

Yn ystod chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 622 o danau eilaidd, er fod hyn yn llai na llynedd mae ychydig yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd. Dros y blynyddoedd gwelwyd cynnydd naturiol yng ngweithgarwch digwyddiadau y chwarter hwn, ac unwaith eto eleni cafwyd Ebrill hynod sych a chynnes felly'n golygu nifer o danau gors a thanau awyr agored.

## Tanau Simnai


- ***Roedd gostyngiad o 35% neu 21 yn llai o danau simnai o gymharu â 2010/11***

Yn ystod chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 39 o danau simnai, sydd 21 yn llai o gymharu â llynedd. Mae hefyd yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd, ac eto mae'n bosib fod hyn oherwydd y tywydd cynnes ym mis Ebrill.

## Tanau yn ôl cymhelliad

Bu gostyngiad o tua 17% yn nifer y tanau damweiniol a bwriadol o gymharu â 2010/11, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau.

**Tanau a fynychwyd, yn ôl cymhelliad (cyfnod cyfredol)**





---

## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

- ***Roedd gostyngiad o 2% neu 10 yn llai o danau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â llynedd***

Yn ystod chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 112 o danau damweiniol mewn cartrefi, sy'n is na llynedd ac yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd, ac yn hafal â 2009/10.

**Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (cyfnod cyfredol)**




## Tanau mewn Eiddo Annomestig

- ***Roedd gostyngiad bychan o 1 tân yn llai mewn eiddo annomestig o gymharu â llynedd***

Yn ystod chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 57 o danau mewn eiddo annomestig, sy'n unol a'r blynyddoedd blaenorol.

Roedd gostyngiad yn nifer y tanau damweiniol, 8 yn llai, gan olygu cyfanswm o 39.




Cychwynnwyd 18 o danau yn fwriadol, ac er fod hyn yn gynnydd mae'n parhau yn unol â'r cyfartaledd 3 blynedd (15).

## AROS YN DDIOGEL – RHESTR GYFEIRIO GRYNO

**BLWYDDYN ADRODD – 2011/12**

HYHE - hyd yn hyn eleni

Dangosir cymhariaeth â ffigyrau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw cefndir – **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid

↑ = cynnydd eleni    ↓ = gostyngiad eleni    ➡ = dim newid

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r Tanau Damweiniol mewn Cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd | 93% (104 o 112) | | | | 93% (104 o 112) | ↑ 4pp |
| Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 8 | | | | 8 | ↓ 1 |
| Marwolaethau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 2 | | | | 2 | ↓ 3 |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi canu | 63% | | | | 63% | ↓ 1pp |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb ganu | 23% | | | | 23% | ↑ 4pp |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yno | 14% | | | | 14% | ↓ 3pp |

**LLYNEDD – 2010/11**

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
|---|---|---|---|---|---|
| % o'r Tanau Damweiniol mewn Cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd/eitem gwreiddiol | 89% (109 o 122) | | | | 89% (109 o 122) |
| Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 9 | | | | 9 |
| Marwolaethau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 5 | | | | 5 |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg yno | 64% | | | | 64% |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb ganu | 19% | | | | 19% |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yno | 17% | | | | 17% |

## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd

- ***Roedd cynnydd i 93% (4 pwynt canrannol yn well) o gymharu â llynedd.***


Yn ystod chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 112 o danau damweiniol mewn cartrefi ac roedd 104 (93%) wedi eu cyfyngu i'r eitem wreiddiol aeth ar dân neu'r ystafell lle cychwynnodd y tân.

## Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

- ***Roedd gostyngiad bychan i 8 anaf o gymharu â 2010/11***

Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn cafodd 8 o bobl anafiadau (angen triniaeth ysbyty), sydd un yn llai na llynedd, ac sydd hefyd yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd (12).

**Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafiadau (cyfnod cyfredol)**




## Marwolaethau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

- ***Bu 2* farwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi (disgwyl cadarnhad)***

Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn bu 2 farwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yn Llandudno (Conwy) a Bryn Teg (Wrecsam).

Ni fu marwolaeth o ganlyniad i dân bwriadol mewn cartref.


* ffigwr amodol – aros cadarnhad gan y Crwner

## Tanau mewn Cartrefi – Larymau Mwg yn Bresennol

- ***Bu gostyngiad bychan i 63% (1 pwynt canrannol yn is) yn y nifer o gartrefi lle bu tân ac oedd a larwm mwg yn gweithio, o gymharu â 2010/11.***

Nid yw'r ffigwr gystal a llynedd (64%) ond mae'n parhau i fod yn well na'r cyfartaledd 3 blynedd (55%).

Mae gostyngiad (gwelliant) wedi bod yn y canran o gartrefi lle bu tân a oedd heb larwm mwg (14%), ond yng ngweddill y cartrefi lle bu tân (23%) roedd larwm mwg wedi ei osod ond ei fod heb seinio.



## GALWADAU AM WASANAETH ARBENNIG *(dim tân)* – RHESTR GYFEIRIO GRYNO


| **BLWYDDYN ADRODD – 2011/12** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HYHE - hyd yn hyn eleni | | | | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigyrau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw cefndir – **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni | | | | | | |
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | |
| Yr holl alwadau brys am wasanaethau arbennig | 265 | | | | 265 | ↓ 10% |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd (dim tân) | 114 | | | | 114 | ↓ 17% |

| **LLYNEDD – 2010/11** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
| Yr holl alwadau brys am wasanaethau arbennig | 293 | | | | 293 |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd (dim tân) | 137 | | | | 137 |

**<u>Galwadau Brys am Wasanaethau Arbennig (dim tân)</u>**

- ***Roedd gostyngiad o 10% neu 28 yn llai o ddigwyddiadau gwasanaethau arbennig o gymharu â llynedd***

Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 265 o alwadau am wasanaethau arbennig, sy'n is na llynedd ac yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd. Mae nifer y digwyddiadau wedi gostwng flwyddyn ar flwyddyn ers 2008/09; yn gyfraneddol mae gwrthdrawiadau ar y ffyrdd wedi gostwng ar raddfa fwy (17%) o gymharu â mathau eraill o wasanaethau arbennig (3%).



## GALWADAU DIANGEN – RHESTR GYFEIRIO GRYNO

| BLWYDDYN ADRODD – 2011/12 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TA = Larymau Tân Awtomatig** | | | | **HYHE - hyd yn hyn eleni** | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw cefndir – **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni | | | | | | |
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | |
| Cyfanswm galwadau diangen aethpwyd atynt | 859 | | | | | ↓ 6% |
| Galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt | 37 | | | | | ↑ 19% |
| Galwadau diangen oherwydd LTA mewn eiddo annomestig | 324 | | | | | ↑ 12% |
| Galwadau diangen didwyll aethpwyd atynt | 349 | | | | | ↓ 23% |

| LLYNEDD – 2010/11 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
| Cyfanswm galwadau diangen aethpwyd atynt | 910 | | | | 910 |
| Galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt | 31 | | | | 31 |
| Galwadau diangen oherwydd LTA mewn eiddo annomestig | 289 | | | | 289 |
| Galwadau diangen didwyll aethpwyd atynt | 429 | | | | 429 |


## Galwadau Diangen (yn gyffredinol)

- ***Roedd gostyngiad o 6% neu 51 yn llai o alwadau diangen o gymharu â llynedd***

Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn, gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 859 o alwadau am gymorth, ond a drodd allan i fod yn alwadau diangen.

O ganlyniad i ailstrwythuro'r modd cofnodir galwadau diangen a wneir cyn dechrau y flwyddyn ariannol hon, gellir nawr weld y newid wrth edrych ar ffigyrau'r chwarter cyntaf, gyda galwadau diangen oherwydd offer awtoganfod tân mewn eiddo annomestig a galwadau diangen didwyll, yn debycach i'r cyfartaledd 3 blynedd nag i ffigyrau 2010/11.

Bu cynnydd bychan yn nifer y galwadau diangen maleisus.



**DIFFINIAD O'R TANAU**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân i'w osod yn o'r tri chategori canlynol – prif, eilaidd neu simnai. |
| Prif | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafannau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br><br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb |
| Simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |